

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Iau, 21 Tachwedd 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, R.E. Evans, W.T. Evans, G.R. Jones, K. Lloyd, B.D.J. Phillips (In place of M.J.A. Lewis), B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, G. Thomas and D.T. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

A. Bracey, Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
N. Edwards, Pennaeth Dros Dro Y Gwasanaethau Integredig
C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
J. Wilkinson, Rheolwr Cynorthwyol Ardal Leol
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
S. Sauro, Rhelwr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 12.25 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr. A.L Fox a M.J.A. Lewis.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. AROLYGIAD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU O WASANAETHAU OEDOLION HYN CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Croesawodd y Cadeirydd Dr. Michael Holding o Arolygiaeth Gofal Cymru i'r cyfarfod.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i archwilio pa mor dda y mae Cyngor Sir Caerfyrddin a'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion rhag cynyddu i oedolion hŷn. Roedd yr adolygiad yn nodi lle y gwnaed cynnydd a lle mae angen gwella.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a roddai drosolwg ar yr arolygiad. Roedd y pwyntiau allweddol dan sylw yn cynnwys:

Cryfderau - Cydweithio, rhannu gweledigaeth, cyfathrebu a chymorth.

Blaenoriaethau ar gyfer gwella - Cysondeb, sicrhau ansawdd, sefydlu a gwreiddio gweithio ataliol.

Y prif gasgliadau - diwylliant a rennir, bodlonrwydd ar y gwasanaethau, diffyg tystiolaeth o fonitro cynnydd, pwysau ar wasanaethau oherwydd absenoldebau staff, rheoli a chefnogi'n dda, arferion diogelu a arweinir yn dda, nid yw staff bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael, asesiadau gallu meddyliol o safon dda, cysylltiadau sylweddol â thechnoleg gymorthedig a teleofal.

Ar ôl y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb lle codwyd y cwestiynau / sylwadau canlynol:

- Gofynnwyd a oedd gofalwyr teuluol wedi cael eu cyfweld yn ystod y broses arolygu.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor y siaradwyd â gofalwyr teuluol a chafwyd adborth cadarnhaol.
- Gofynnwyd a oedd staff yn cael eu cyfweld ar eu pen eu hunain neu gyda'u rheolwyr.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod staff yn cael eu cyfweld ar eu pen eu hunain i osgoi dylanwad posibl.
- Gofynnwyd sut y cafodd y ffeiliau a arolygwyd eu dewis.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor y cafodd y ffeiliau eu dewis gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Dewiswyd rhwng pumdeg a chwedeg o ffeiliau ar hap a oedd yn cynnwys categorïau atgyfeirio gwahanol.
- Nododd y Pwyllgor mai un maes i'w wella oedd y dull o gyfleu'r gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael.
Dywedodd y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd fod gwaith wedi'i wneud yn y maes hwn a bod pecynnau gwybodaeth a dogfennau rhanbarthol ynghylch cymorth i ofalwyr yn cael eu diweddarau a'u hadnewyddu. Roedd meysydd gwaith eraill yn cynnwys edrych ar arferion da, Rhaglen Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a phasbort gofalwyr. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gydag Adnoddau Dynol i ddarparu cymorth a seilwaith i weithwyr sydd hefyd yn ofalwyr. Dywedodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wrth y Pwyllgor nad oedd Swyddog Asesu Gwybodaeth Gofalwyr wedi bod yn ei swydd am y 12 mis diwethaf ond ei fod yn gobeithio y byddai'r swydd hon yn cael ei newid yn fuan i alluogi'r tîm i fod yn fwy rhagweithiol.

Daeth Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig i'r casgliad bod yr adroddiad yn gytbwys ac yn deg a'i fod yn adlewyrchu sefyllfa bresennol y gwasanaethau integredig yn gywir. Roedd yr adroddiad yn cydnabod swyddogion am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u harferion da.

Roedd llawer o swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Bu i'r Cadeirydd gydnabod yr heriau maent yn eu hwynebau yn sgil y cyllid llai a'r galw cynyddol ar wasanaethau.

PENDERFYNWYD:

- 4.1 nodi adroddiad Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Oedolion Hŷn.**
- 4.2 cymeradwyo Cynllun Gweithredu Arolygiaeth Gofal Cymru.**

5. RHAGLENNI TRAWSNEWID A GYLLIDIR GAN LYWODRAETH CYMRU YN SIR GAERFYRDDIN

Rhoddodd y Rheolwr Ardal Leol drosolwg i'r Pwyllgor o'r cronfeydd trawsnewid cymeradwy a ddyfarnwyd i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru a sut y byddent yn cael eu darparu yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r tair rhaglen i'w cyflawni yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys:

- Gofal Rhagweithiol trwy Gymorth Technoleg,
- Integreiddio Cyflym a Chyson
- Creu Cysylltiadau i Bawb

Ar ôl y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb lle codwyd y cwestiynau / sylwadau canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y meini prawf ar gyfer gwneud cais am wasanaeth larwm personol Lifeline ac os oedd y gwasanaeth hwn yn addas i rywun â phroblemau iechyd meddwl.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynllun yn cael ei dreialu ar hyn o bryd a bod y gwasanaeth am ddim ar gyfer 6 mis y peilot. Cafodd y defnyddwyr ar gyfer y cynllun peilot eu dewis o blith cyfuniad o haenau atal a oedd yn cynnwys practisau Meddygon Teulu, teuluoedd, gofal canolraddol a galwyr cyson. Pan fydd tystiolaeth bod y peilot yn gweithio, byddai'r gwasanaeth yn cael ei ymestyn i ddefnyddwyr eraill.
- Gofynnwyd a oedd Sir Gaerfyrddin yn barod i gydweithio â sefydliadau megis sefydliadau dielw a chyda'r cymunedau.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cydweithio o ran cyllid yn her ond bod angen ystyried y canlyniadau a chysylltu'r rhain â darpariaeth gymunedol.
Dywedodd y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd fod y cynlluniau cyllid/grant amrywiol wedi ysgogi twf ac wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i ddarparu gwasanaethau. Hefyd dywedwyd wrth y Pwyllgor fod sefydliadau'r 3^{ydd} sector yn gallu manteisio ar gyllid nad yw gwasanaethau statudol yn gallu ei gael. Rhoddodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y prosiect Noddfa Min Nos newydd a lansiwyd yn ddiweddar yn Llanelli drwy ddefnyddio'r cyllid ar gyfer Trawsnewid Iechyd Meddwl. Nod y prosiect yw dargyfeirio pobl o adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac er mai dim ond yn ddiweddar y cafodd ei lansio, mae'n cael effaith gadarnhaol. Ar hyn o bryd gobeithir ehangu'r prosiect i gynnwys darparu gwelyau. Mae'r prosiect hefyd yn gobeithio cydleoli gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans i flaenoriaethu galwadau er mwyn sicrhau ymateb mwy priodol i unigolion y mae angen cymorth arnynt.
- Gofynnwyd a fyddai modd dosbarthu rhif y gwasanaeth min nos i'r ysbytai.
Dywedodd y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wrth y Pwyllgor fod y rhif eisoes wedi cael ei ddsbarthu i'r ysbytai.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am sicrhau'r cyllid ar ran Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

6. ADRODDIAD CWYNION A CHANMOLIAETH GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION 1AF EBRILL, 2019 - 30AIN MEDI, 2019

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y cwynion a'r ganmoliaeth ynghylch Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a oedd wedi dod i law ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd yr adroddiad yn crynhoi nifer y cwynion a'r ganmoliaeth oedd wedi dod i law ac yn cynnwys gwybodaeth am y math o gŵynion a'r maes gwasanaeth sy'n ymwneud â chwynion a chanmoliaeth.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Gofynnwyd sut oedd yr adran yn ymdrin â chwynion cymhleth ac os oedd arbenigwyr yn cael eu defnyddio i reoli'r cwynion hyn.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig, pan fo cwyn yn dod i law ac yn cael ei hasesu fel un gymhleth, mae'n symud ymlaen yn syth at gŵyn Cam 2. Byddai cwyn Cam 2 yn cael ei rheoli gan swyddog annibynnol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gellid darparu enghreifftiau o'r mathau o gwynion.
- Cyfeiriwyd at y nifer isel o gwynion a dderbyniwyd o gymharu â'r nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth. Gofynnwyd sut oedd gwaith monitro'n cael ei wneud i sicrhau bod pob cwyn yn cael ei chofrestru, yn enwedig cwynion yn erbyn asiantaethau allanol.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig y cyflawnwyd gwaith monitro perfformiad trwyadl a defnyddiwyd nifer o ddulliau (gan gynnwys siarad â defnyddwyr gwasanaethau) i bennu lefel y gwasanaeth a ddarperir.
- Pan oedd Gweithiwr Gofal Cartref yn hwyr yn mynychu apwyntiad, gofynnwyd a oedd amser penodol wedi'i osod cyn y byddai'n rhaid iddo ffonio'r cleient.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod modd caniatáu hanner awr cyn ffonio.
- Gwnaed sylw bod y graffiau yn yr adroddiad yn dangos bod cwynion yn cael eu hateb yn eithriadol o gyflym.
Nododd y Rheolwr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau fod swyddogion ymchwilio wedi cael hyfforddiant a bod gweithdrefnau llym yn cael eu dilyn i sicrhau bod amserlenni'n cael eu bodloni. Os oedd oedi, rhoddwyd gwybod i'r holl bartïon am y rhesymau a thrafodwyd estyniad a chytunwyd arno.
- Gofynnwyd a ellid ystyried ymholiadau gan Gynghorwyr yn gŵynion.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig fod ymholiadau'n cael eu cyfeirio at y Penaethiaid Gwasanaeth a'u cofnodi fel cwynion pan oedd angen.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2019/20

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac lechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Awst 2019, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019/20.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac lechyd yn gorwario £816k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai -£2k o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2019/20.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

Atodiad A - Crynodeb o'r sefyllfa

- Gofynnwyd a oedd arwydd bod y gorwariant a ragwelwyd o £816K yn cynyddu.
Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp wrth y Pwyllgor y gobeithir gweld gostyngiad yn y ffigur. Yn ogystal â hyn, efallai y byddai grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi a fyddai hefyd yn lleihau'r ffigur.

Atodiad B - Y Prif Amrywiadau

- Mynegwyd pryder ynghylch y swyddi gwag yn y tîm Therapi Galwedigaethol yn enwedig gan fod y swyddi hyn yn allweddol o ran cyflawni'r agenda ataliol.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig fod proses recriwtio ar waith. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch y nifer isel o geisiadau a dderbyniwyd.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch cynllun datblygu'r gweithlu.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig y bwriedir darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn llawn yn sesiwn datblygu'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac lechyd ym mis Rhagfyr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gwaith yn cael ei wneud yn lleol i ymchwilio i wahanol opsiynau ar gyfer recriwtio. Nodwyd bod cronfa o weithwyr cymdeithasol achlysurol yn cael ei chreu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Byddai'r gronfa'n cael ei defnyddio i gefnogi timau pe byddai argyfwng. Cynhaliwyd ymgyrch "Gofalwn Cymru" i ddenu pobl i'r proffesiwn.
- Dywedwyd bod cynnydd demograffig o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer y bobl hŷn a gofynnwyd a oedd data cywir ar gael i ragweld demograffeg y dyfodol.
Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Integredig y defnyddiwyd data Daffodil Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i ragweld. Yn ôl pob golwg roedd y data yn gywir ac yn cyfateb i wybodaeth leol.
- Mynegwyd pryder ynghylch y gost a'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth.
Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp fod adolygiad TIC yn cael ei gynnal i ymdrin â'r mater hwn.

Atodiad F - Yr Amrywiadau'n Fanwl

- Mynegwyd pryder ynghylch y £100k o arbedion rheoli ar gyfer 2019/20 nad oedd yn cael eu cyflawni.
Er bod hyn yn bryder, dywedodd Cyfrifydd y Grŵp fod hyn yn bennaf oherwydd oedi o ran y prosiectau Datblygu Llety i Bobl ag Anableddau Dysgu.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

8. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Datblygu a Chynnal y gweithlu
- Strategaeth Anableddau Dysgu (2018/2023)

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 17 Rhagfyr 2019.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24AIN MEDI, 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 24 Medi 2019 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD